**Esiampl o Amserlen Cwrs Preswyl Cynaladwyedd a Lles (2 dydd, 1 noson)**

**Dydd 1: Teithio i'r ganolfan- Cyrraedd 9:30am**

**Bore**

**Sesiwn Cynefin: Coedwig (Sesiwn blas)**

Yn y sesiwn bore cewch gymryd rhan yn ein sesiwn blas cynefin coedwig a fydd yn eich cyflwyno i agweddau o dreftadaeth, llenyddiaeth, natur a rhywogaethau lleol mewn ffordd hwylus ac ymarferol. Yn ystod y sesiwn ceir cyfle am gyfnod o lonyddwch llesol i badio yng Nghoedwig Tŷ Canol.

**Gwylltgrefft (Sesiwn blas)**
Ymgasglwch o gwmpas y tân am sesiwn blas Gwylltgrefft gyda chyfle i drafod y sialensiau sydd yn eich wynebu yn y gymdeithas bresennol.

**Prynhawn**

**Crefft Wledig**
Wedi cinio cewch droi eich llaw ar grefft wledig (dewis o weithio gyda gwlân a lliwio naturiol, helygrefft neu adeiladu a deunydd naturiol)

**Pridd i'r Plât (Sesiwn blas)**
Awn allan i'r ardd i drochi ein dwylo yn y pridd a dysgu am bob agwedd o dyfu bwyd a dysgu am fuddiannau bwyta gyda'r tymhorau. Cawn hefyd ddysgu am fuddiannau llesol perlysiau gwahanol trwy ei fwyta, ei harogli a'i hyfed yn barod am de.

**Gweithdy Gwastraff**
Wedi seibiant bach awn at ein gweithdy gwastraff lle cewch ddysgu am ble yn union mae ein gwastraff yn mynd, pa mor hir mae'n cymryd gwahanol ddeunyddiau i ddadelfennu a beth allwn wneud i leihau ein gwastraff a chyflawni bywyd diwastraff. Yn ystod y sesiwn fydd angen i chi gweithio gyda'ch gilydd i uwchgylchu casgliad o wastraff mewn i rywbeth defnyddiol/ darn o gelf.

**Gyda'r Nos**

**Chwedlau wrth y Gwreichion**
Wedi swper ceir gyfle i bawb ymlacio o dan y sêr ac o gwmpas y tân wrth wrando ar hen chwedlau a storiâu Cymreig. Mae hyn hefyd yn gyfle i rannu profiadau a thrafod pynciau llosg/ pryderon e.e. beth yw'r sialensiau sydd yn gwynegu pobl ifanc yng Nghymru heddiw.

**Twmpath neu Daith Creaduriaid y nos**
Wrth i'r haul fachlud mae yna'r opsiwn i gael hwyl a sbri gyda Thwmpath traddodiadol neu fynd ar daith Creaduriaid y Nos trwy'r goedwig. Os fydd y noswaith yn ddigon dywyll a chlir cewch fwynhau sesiwn yn dysgu am y sêr cyn mynd i'r gwely.

**Dydd 2**

**Bore**

**Sesiwn Cynefin: Mynydd**

Ar y daith gerdded yma dysgwch am yr amrywiaeth o rywogaethau (bywyd gwyllt/ planhigion) sydd yn byw o fewn y cynefin mynyddig. Cewch hefyd gyflwyniad i ddaeareg a threftadaeth y Preselau gan edrych ar berthynas pobl gyda'r cynefin yma trwy'r oesoedd. Gallwn deilwra gweithgareddau'r daith yn ôl eich anghenion e.e. daearyddiaeth, bioleg, llenyddiaeth.

| |
|---|
| <u>**Prynhawn**</u><br>**Gweithdy Actifiaeth Creadigol**<br>Yn y gweithdy yma caiff y preswylwyr ei gyflwyno i bwysigrwydd actifiaeth mewn diogelu ein planed. Caiff y grŵp y cyfle i ddefnyddio popeth maent wedi ei ddysgu yn ystod y cwrs preswyl i weithio fel grŵp i greu darn creadigol- barddoniaeth, can, darn o gelf, fideo, dawns, araith- gyda neges sydd yn annog i'r cyhoedd a llywodraethau i weithredu i ddiogelu ein hamgylchedd. |
| **Ymadael am 2pm** |